# Crynodeb blaenoriaethau Cynllun Datblygu Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof 2024-25

Mae'r ysgol yn monitro ac arfarnu yn gyson ac o ganlyniad rydym yn llunio Cynllun Datblygu. Mae'r Cynllun yn cymryd i ystyriaeth anghenion datblygu mewnol, yn ogystal â blaenoriaethau Cenedlaethol. Mae staff, llywodraethwyr a'r disgyblion yn cael mewnbwn i'r cynllun. Yn ystod y flwyddyn byddwn yn monitro a gwerthuso ein cynnydd ar draws 3 agwedd:

**Cwricwlwm, dysgu ac addysgu:** Ymfalchïwn ein bod yn ysgol gynhwysol sy'n darparu profiadau dysgu dilys, pwrpasol a pherthnasol i bob disgybl. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn ffynnu yn ysgol Coed-y-Gof.

**Lles, tegwch a chynhwysiant:** Ymfalchiwn yn ein hethos gofalgar a pharchus sy'n rhan ganolog o les disgyblion. Mae arweinwyr ysgol yn olrhain ac yn monitro cynnyddd disgyblion yn effeithiol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion a staff yn dangos lefel uchel o les personol ac mae perthnasoedd yn gadarnhaol. Mae gan yr ysgol perthnasau a chysylltiadau da gyda'i gymuned.

**Gweledigaeth ac Arweinyddiaeth:** Mae gweledigaeth glir gan yr ysgol sydd yn cael ei ddatblgyu a'i rhannu gan holl rhanddeiliaid yr ysgol. Mae Ffocws ar ddatblygu bob aelod o staff yn sicrhau ein bod yn gyrru ein Cwricwlwm ymlaen gydag egni, cysondeb a brwdfrydedd.

| Blaenoriaeth Maes Arolygu 1: Addysgu a dysgu | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **Rhesymeg/hunan werthusiad** |
| Parhau i ddatblygu a gwreiddio egwyddorion "Dysgu trwy ymholiad" ar draws yr ysgol. | Angen gwreiddio egwyddorion a dull cynllunio "Dysgu trwy ymholiad".<br>Cyflwyno system tracio Building Blocks i fonitro cyrhaeddiad ac amlygiad ar draws y Cwricwlwm. |
| Datblygu cyfleoedd i'r holl ddisgyblion i ddysgu yn yr awyr agored. | Holiadur diwedd tymor yr haf 2024 yn canfod bod disgyblion ar draws yr ysgol, i fyny at flwyddyn 6, yn awyddus i gael mwy o wersi yn yr awyr agored. |
| Gwella sgiliau a chodi safonau llafar a darllen Cymraeg. | Holiadur athrawon yn codi safonau llafaredd Cymraeg y disgyblion yn bryderus.<br>Lefelau darllen Cymraeg mewn rhai o ddosbarthiadau yn is na'r lefel disgwyliedig |
| Cyd-weithio gydag ysgolion y clwstwr i ddatblygu a gweithredu system gytûn i asesu cynnydd disgyblion. | Gwaith clwstwr eisoes ar y gweill i gytuno ar system asesu ar draws y Cwricwlwm. |

| Blaenoriaeth 2: Lles, gofal, cymorth ac arweiniad | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **Rhesymeg/hunan werthusiad** |
| Datblygu amgylchedd allanol yr ysgol er mwyn gwella cyfleoedd a phrofiadau chwarae'r disgyblion. | Holiadur disgyblion yn dangos yn glir bod y dysgwyr eisiau mwy o brofiadau o ddysgu yn yr awyr agored<br>Chanran sylweddol yn gofyn am fwy o adnoddau ac offer chwarae ar yr iard. |
| Hyrwyddo diwylliant o barch a charedigrwydd, gall yr ysgol greu cymuned lle mae pawb yn teimlo'n gynhwysol ac yn gefnogol. | Holiadur staff yn canfod bod y mwyafrif eisiau gweld gwelliant yn ymddygiad y disgyblion.<br>Holiadur y dysgwyr yn canfod bod lleiafrif yn teimlo eu bod yn cael ei bwlio yn yr ysgol.<br>Holiadur y dysgwyr yn dangos taw tua hanner sydd yn teimlo bod ymddygiad y plant arall yn dda, boed yn y dosbarth neu ar yr iard. |
| Sefydlu egwyddorion Parch, Parodrwydd Perthyn yn gryf ar draws yr ysgol | Canlyniadau holiaduron dysgwyr a staff yn canfod bod ymddygiad, parch at eraill  a Chymreictod angen gwella. |
| Cyd-weithio ar brosiectau i leihau effaith tlodi ar gyrrhaeddiad disgyblion | Nifer sylweddol o ddysgwyr yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (44%)<br>Mae'r ysgol yn cyd-weithio ar brosiectau Cenedlaethol a chlwstwr i leihau'r effaith tlodi ar gyrhaeddiad a phrofiad ysgol ein dysgwyr. |

| Blaenoriaeth 3: Arwain a gwella | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **Rhesymeg/hunan werthusiad** |
| Cynyddu niferoedd y disgyblion sydd yn mynychu'r ysgol wrth gyd-weithio a phartneriaethau allanol i godi proffil ac ymwybyddiaeth darpar rieni o'r ysgol. | Niferoedd y dosbarth derbyn yn is o lawer yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. |
| Datblygu rôl y Corff Llywodraethol yn yr ysgol wrth gynnyddu eu mewnbwn ac effaith ar gyfeiriad strategol yr ysgol. | Y Corff Llywodraethol i ymweld â'r ysgol yn fwy rheolaidd i ddyfnhau |
| Cyd-weithio gyda Swyddogion yr Awdurdod Lleol ar gynllun hir-dymor i sicrhau cyllid ddigono i'r ysgol. | Mae'r ysgol yn edrych ar gyllideb diffyg yn ystod y flwyddyn ac mae angen Cynllun hir-dymor i greu sylfaen cadarn i ddyfodol yr ysgol. |

| Blaenoriaeth 3: Arwain a gwella | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **Rhesymeg/hunan werthusiad** |
| Cynyddu niferoedd y disgyblion sydd yn mynychu'r tyysgol wrth gy-weithiao a phartnriaethau allano i godi poriffil ac ymwybyddiaeth darpar rieni o"r ysgol. | Niferoedd |
| Datblygu rol y Corff Llywodraethol yn yr ysgol wrth gynyddu ei mewnbwn ac effatih ar gyfeiriad strategol yr ysgol. | |
| Cyd-weithio gyda swyddogion yr Awdurdod Lleol ar gynllyn hir-dymor i sicrhau cyllid digonol a dyfodol cadarn i'r ysgol. | |